



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr a Cheredigion
Carmarthenshire and Ceredigion Public Services Board

Eitem / Item	Dyddiad / Date	
1.8	15-9-2026	
Teitl / Title		Er / Ar gyfer
Adroddiad Ymgynghorol ac Ymgysylltu Asesiad o Lesiant Lleol		<i>Trafodaeth a Chytundeb</i>
Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues		
Mae'r adroddiad atodedig wedi'i baratoi i'w ystyried gan y BGC, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae grŵp bach o swyddogion enwebedig, o bob rhan o aelodau BGC, wedi arwain ar ddatblygiad arolwg, negeseuon cyfathrebu a chyfleoedd cyfranogi, i gasglu tystiolaeth ansoddol gan drigolion o ran eu lles. Derbyniwyd cyfanswm o 531 o ymatebion ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ynghyd â gweithgarwch ymgysylltu helaeth yn cynnwys digwyddiadau cymunedol, Panel Pobl Ceredigion, Cyngor Ieuenctid Sir Gâr, Partneriaeth Natur Leol a Phartneriaeth Bwyd Sir Gâr. Ar hyn o bryd mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn paratoi eu hadroddiad cyfranogiad a'r camau nesaf o ran yr Asesiad o Lesiant Lleol; fodd bynnag, bydd amserlenni ychydig yn wahanol o'r pwynt hwn ymlaen. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr o Sir Benfro ar y gwaith hwn. Mae'r ymgynghoriad yn dangos cysondeb cryf yn y materion sy'n bwysicaf i gymunedau ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae trigolion yn blaenoriaethu iechyd da, diogelwch economaidd, cymunedau cryf, tai fforddiadwy, ansawdd amgylcheddol a chyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol. Er bod gwahaniaethau lleol yn bodoli, mae'r canfyddiadau'n pwyntio at nifer gymharol fach o heriau rhyng-gysylltiedig a ddylai fod yn sail i'r Asesiad o Lesiant Lleol. Dylai'r BGC nawr trioglu'r canfyddiadau hyn gyda thystiolaeth feintiol, nodi'r heriau allweddol ar draws y system sy'n effeithio ar lesiant, a defnyddio'r mewnwelediad hwn i lywio datblygiad amcanion llesiant yn y dyfodol a'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf.		

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications
Dim un wedi'i nodi hyd yma
Argymhellion / Recommendations
1. Bod y BGC yn nodi canfyddiadau'r rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu Asesu Llesiant Lleol. 2. Bod y BGC yn cytuno y dylid ymgorffori'r canfyddiadau ochr yn ochr â thystiolaeth ystadegol a phartneriaid o fewn yr Asesiad o Lesiant Lleol. 3. Cymeradwyo'r defnydd o'r themâu strategol a nodwyd a'r materion trawsbynciol i gefnogi datblygu'r Asesiad a thrafodaethau yn y dyfodol ynghylch blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant Lleol.
Atodiadau / Attachments
Atodiad 1: Adroddiad Ymgynghorol ac Ymgysylltu Asesiad o Lesiant Lleol
Swyddog Adrodd / Reporting Officer
Llinos Evans